# Defnyddio'r Celfyddydau i Rymuso Cymunedau i Dorri Cylchoedd Cadw'n Ddistaw

Áine Brady, Prifysgol y Frenhines Belffast

# CIP Astudiaeth Achos

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

© 2024. Mae'r gwaith hwn wedi'i drwyddedu o dan
CC BY-NC-SA 4.0

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch i www.creativecommunities.uk/


Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.



# Crynodeb

Mae'r astudiaeth achos hon yn archwilio'r defnydd o fethodolegau cyd-greadigol mewn ymyriad diwylliannol yng nghymuned y Farchnad, Belfast. Mae'r Farchnad, sef cymdogaeth dosbarth gweithiol yn hanesyddol, yn wynebu heriau sy'n pontio'r cenedlaethau, gan gynnwys diweithdra, tlodi, anghydraddoldebau iechyd a gwahanu gwleidyddol. Mae gwaddol y Gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon wedi gwneud yr heriau hyn yn waeth, ac yn fwy diweddar mae'r bylchau mewn polisïau oherwydd cyfnod o lywodraeth ohiriedig wedi llesteirio newidiadau.

Mae'r Gwrthdaro yn ffactor arwyddocaol sy'n gysylltiedig â salwch meddwl, defnyddio sylweddau a phroblemau eraill o'r fath yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r cynnydd yn y problemau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yng Ngogledd Iwerddon wedi dod yn dipyn o beth yn y Farchnad hefyd. Nod yr Ymarferydd Arloesi Cymunedol (CIP) fel prosiect oedd mynd i'r afael â'r materion cymhleth hyn drwy ddefnyddio ymyriad cymunedol oedd yn seiliedig ar y celfyddydau ac yn pontio'r cenedlaethau.



Mae'r prosiect yn rhoi pwyslais ar bartneriaeth deg a chyd-greu; integreiddio profiad a gwybodaeth y gymuned, gwybodaeth academaidd, ac arbenigedd celfyddydol a diwylliannol er mwyn grymuso cyfranogwyr. Mae'n symbylu ymateb sy'n seiliedig ar le i heriau penodol, yn unol â dysg a strategaethau cenedlaethol/rhanbarthol, er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Wedi'i gyd-ddylunio a'i gyflwyno gyda Chymdeithas Datblygu'r Farchnad (MDA) a phartneriaid lloeren, bu'r CIP yn hwyluso gweithdai celfyddydol drwy gydweithio ar draws sectorau. Bu dau ar bymtheg o gyfranogwyr, mewn dau grŵp oedd yn pontio'r cenedlaethau, yn cymryd rhan mewn naw gweithdy rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024.

Gan ddefnyddio ymchwil gyfranogol yn y gymuned a dull oedd yn seiliedig ar drawma, defnyddiodd y gwaith ymchwil ddulliau cyd-greu celfyddydol gan gynnwys drama, ysgrifennu creadigol, barddoniaeth, mapio gweledol a ffotograffiaeth (ffotolais) i archwilio ymatebion diwylliannol i drawma a defnyddio sylweddau. Roedd y dulliau hyn yn galluogi cyfranogwyr i rannu eu straeon, adeiladu naratif ar y cyd, a meithrin cysylltiad cymunedol; gan alluogi trafodaethau agored ar drawma, defnyddio sylweddau, perthyn a hunaniaeth ddinesig.

Creative Communities

UKRI Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE



Daeth yr ymchwil i ben gydag arddangosfa ffotograffau wedi'i chyd-greu a'i chyd-guradu, 'The Market: A People's Tapestry', a oedd i'w gweld ym mis Ebrill 2024 yn 2 Royal Avenue, Belfast, gan ddenu oddeutu 7000 o ymwelwyr.

Cafodd lansiad yr arddangosfa sylw sylweddol ar y teledu (BBC Newsline), radio (Radio Ulster), a'r cyfryngau cymdeithasol (>58,300 wedi gweld yr hanes ar X); gan godi ymwybyddiaeth ynghylch heriau cymunedol a mynd i'r afael â stigma sy'n gysylltiedig â thrawma a defnyddio sylweddau.

Mae data gwerthuso'n awgrymu bod y prosiect wedi mynd i'r afael â stigma, wedi grymuso cyfranogwyr, wedi cryfhau cadernid cymunedol ac wedi ysbrydoli mentrau dilynol llwyddiannus gyda chyllidwyr eraill. Mae'r prosiect yn dangos potensial trawsnewidiol ymyriadau celfyddydol wrth fynd i'r afael â materion iechyd cymhleth mewn cymunedau ymylol, ac mae'n cydnabod gwerth ychwanegol cyllid datganoledig ar gyfer ymchwil a datblygu diwylliannol traws-sector yng Ngogledd Iwerddon.




*Poster arddangosfa 'Y Farchnad: Tapestri'r Bobl'*

# Cyflwyniad

Fel yr Ymarferydd Arloesi Cymunedol yn QCAP, Prifysgol y Frenhines, Belfast, roeddwn i'n gyfrifol am gyflawni'r prosiect, gan gynnwys:

- Sefydlu a chynnal partneriaethau effeithiol
- Recriwtio, hwyluso, darparu adnoddau, cyd-greu
- Casglu gwybodaeth drwy arferion ymchwil cynhwysol

Nod fy mhrosiect ymchwil CIP oedd cyd-ddylunio ymyriad celfyddydol dan arweiniad y gymuned i ymateb i angen cymunedol oedd yn pontio'r cenedlaethau o safbwynt defnyddio sylweddau a thrawma. Dyfeisiwyd y prosiect ar y cyd gan QCAP, Cymdeithas Datblygu'r Farchnad a thrigolion y Farchnad. Roedd hefyd yn arbennig o amserol wrth ystyried ffocws sy'n dod i'r amlwg yn strategaeth NI ar ddefnyddio sylweddau ar weithio sy'n seiliedig ar leoedd ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae Gwrthdaro a thrallod economaidd yn ffactorau risg cydnabyddedig ar gyfer cynnydd yn y defnydd o sylweddau. Yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon sydd â'r cyfraddau uchaf o farwolaethau (44.5% o farwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau; 44.4% o farwolaethau yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau) yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae tua 28.5% o boblogaeth Gogledd Iwerddon yn cael profiad o broblemau iechyd meddwl sylweddol, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn gysylltiedig â'r Gwrthdaro. Wrth i ni feddwl am drosglwyddo rhwng y cenedlaethau – lle mae cymunedau'n dal i ddelio â chanlyniadau seicolegol – gwelir bod cysylltiad eang â thrawma yn arwain at oblygiadau arwyddocaol.

Mae trawma sy'n pontio'r cenedlaethau yn ffactor sy'n cyfrannu at ddefnyddio sylweddau yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n digwydd drwy fecanweithiau sy'n cynnwys arddull cyfathrebu, rhagdueddiadau genetig, a naratifau diwylliannol, gyda cadw'n ddistaw yn cael ei gydnabod fel dull trosglwyddo pwerus. Nod prosiect CIP oedd defnyddio diwylliant i dorri'r cylchoedd hyn lle'r oedd pawb yn cadw'n ddistaw.

Roedd y gwaith ymchwil yn archwilio potensial cymuned dosbarth gweithiol i fynd i'r afael â'r materion iechyd cymhleth sydd ynghlwm wrth ddefnyddio sylweddau a thrawma drwy gydweithio diwylliannol, ymchwil a chreadigrwydd. Roedd wedi'i leoli yn y Farchnad – cymdogaeth hanesyddol yn ne Belfast (≈2,500 o drigolion). Defnyddiwyd dulliau cyd-greu ac ymchwil a datblygu diwylliannol i rymuso cyfranogwyr i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth hyn.

Cafodd y prosiect ei lywio gan arbenigedd academaidd a mewnwelediad i'r berthynas gymhleth rhwng trawma, defnyddio sylweddau ac amddifadedd. Roedd yn aml-genhedlaeth, yn cynnwys oedolion a phobl ifanc i fynd i'r afael â'r distawrwydd a'r stigma sy'n gweithredu fel mecanweithiau trosglwyddo ar gyfer trawma, iechyd meddwl a defnyddio sylweddau.

Gan weithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr ym myd y celfyddydau, a defnyddio amrywiaeth o ddulliau celfyddydol gan gynnwys drama, barddoniaeth, ysgrifennu creadigol a ffotograffiaeth, dechreuodd y cyfranogwyr drosi emosiynau, meddyliau a theimladau – fel pryder, trawma a chywilydd – yn gyfryngau geiriol a di-eiriau a oedd yn galluogi celf a diwylliant i roi llais i brofiadau bywyd a'u rhannu.

### Cymdeithas Datblygu'r Farchnad (MDA: Canolfan Jim Hargey)

Yr MDA oedd prif bartner prosiect Tapestry a'r mudiad cymunedol ymbarél yn y Farchnad; helpodd i recriwtio a chefnogi trigolion i gymryd rhan ym mhrosiect Tapestry a chyd-hwyluso sesiynau gyda'r CIP a'r artist.

### Pangur Bán

Pangur Bán yw'r prif sefydliad celfyddydol yn y gymuned, a sefydlwyd gan drigolion yn 2014 i hyrwyddo diwylliant a chelf dosbarth gweithiol. Mae'n cynnal calendr o ddigwyddiadau gan gynnwys clybiau llyfrau, nosweithiau hanes a chanu a phrosiectau theatr. Helpodd Pangur Bán i recriwtio a chefnogi trigolion i gymryd rhan yn y prosiect.

### Cyngor Ieuenctid y Farchnad

Mae Cyngor Ieuenctid y Farchnad yn cynrychioli llais pobl ifanc yn y gymuned. Roedd grŵp ieuenctid prosiect Tapestry yn cynnwys aelodau o'r Cyngor Ieuenctid.



### Matt Faris

Matt oedd yr artist-hwylusydd a fu'n gweithio ar brosiect Tapestry gyda'r CIP. Mae Matt yn actor, yn awdur ac yn gyfarwyddwr sydd wedi gweithio yn y theatr ers dros 25 mlynedd. Arbenigedd penodol Matt yw'r Celfyddydau a'r Theatr mewn Cyd-destun Cymunedol.

### Prifysgol Celfyddydau ArtEZ (Yr Iseldiroedd)

Mae ArtEZ yn brifysgol gelfyddydol yn yr Iseldiroedd gyda rhaglen lleoli myfyrwyr ym Melfast. Fel rhan o brosiect Tapestry, bu dau fyfyriwr ArtEZ ar leoliad, yn gweithio ar y prosiect am chwe wythnos, yn rhannu eu harbenigedd, ac yn helpu i hwyluso dulliau creadigol a ffotograffiaeth.

### RedHead

Cwmni dylunio graffeg yw RedHead fu'n gweithio gyda chyfranogwyr Tapestry i guradu'r arddangosfa ffotograffig.

# Cyd-destun yr Ymchwil

Mae argyfwng iechyd cyhoeddus yn datblygu yng Ngogledd Iwerddon, a defnyddio sylweddau sydd wrth ei wraidd. Mae gan hyn oblygiadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol i gymunedau ac i'r gymdeithas ehangach. Mae data diweddar yn tynnu sylw at nifer o faterion sy'n destun pryder yng nghyd-destun datganoledig Gogledd Iwerddon:

- Y nifer uchaf ond un o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau ar gofnod yn 2021
- Y gyfradd uchaf o farwolaethau o ganlyniad i gyffuriau ymysg grwpiau oedran iau (18-34) yn y DU
- Nifer uwch o farwolaethau o ganlyniad i gyffuriau yn y cymunedau mwyaf difreintiedig
- Ochr yn ochr â'r Alban, y lefel uchaf o farwolaethau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol yn 2021

Yn sgil y Gwrthdaro, mae Gogledd Iwerddon yn profi lefelau unigryw o drawma a defnyddio sylweddau, gyda'r rheini a gafodd eu magu yn ystod y cyfnod hwnnw'n adrodd am gyfraddau uwch o anhwylderau'n ymwneud â hwyliau a chamddefnyddio sylweddau. Gall trawma gael llawer o effaith ar iechyd meddwl, nid yn unig i'r rhai sy'n dioddef o'r trawma, ond i'r cenedlaethau nesaf hefyd; ac mae trawma sy'n pontio'r cenedlaethau yn parhau i fod yn hollbresennol ymysg pobl ifanc Gogledd Iwerddon. Un o'r prif bethau sy'n gyfrifol am drosglwyddo trawma ar draws cenedlaethau yw distawrwydd, sy'n creu chwilfrydedd yn y genhedlaeth nesaf.

Roedd tlodi ac amddifadedd, a waethygwyd gan y gwrthdaro, yn gyffredin ym Melffast ac yn peri risgiau allweddol ar gyfer mwy o ddefnydd o sylweddau a lefelau uwch o orbryder. Mae'n amlwg bod 'cael eich magu mewn ardal economaidd ddifreintiedig gyda chysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â thrawma' yn cynyddu'r risg o ddefnyddio sylweddau a datblygu salwch meddwl. Yn y cyd-destun hwn, mae cymunedau dosbarth gweithiol yn cael eu hunain dan anfantais ddwbl, gan mai nhw sydd fwyaf agored i drais y gwrthdaro, a'r tlotaf hefyd.

Y Farchnad yw un o gymdogaethau dosbarth gweithiol hynaf Belfast, sydd wedi'i lleoli yng nghanol y ddinas. Ers y 1970au, mae dirywiad diwydiannol, cynllunio gwael a'r Gwrthdaro wedi arwain at ddiweithdra cynyddol, mwy o dlodi, a gwahanu gwleidyddol ac economaidd. Mae'r boblogaeth wedi gostwng o 6,000 i 2,500, ac mae maint yr ardal wedi crebachu, gan arwain at ymdeimlad o fewn y gymuned o gael ei gwasgu allan o ganol y ddinas.

Er i ni weld cenhedlaeth o heddwch cymharol, mae gwaddol y Gwrthdaro yn parhau i gael effaith negyddol ar iechyd, addysg a chyflogaeth. Mae'r Farchnad ymhlith y deg y cant o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon ac ymhlith y pump y cant uchaf o ran digartrefedd, tangyflawni addysgol, iechyd ac anghydraddoldebau economaidd. Mae tlodi, dieithrio, dibyniaeth, disgwyliad oes is ac iechyd meddwl gwael i gyd yn nodweddiadol o fywyd yn y gymuned.


Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

Yn 2021, bu 'Queen's Communities and Place' (QCAP) Prifysgol y Frenhines, Belfast, yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Datblygu'r Farchnad (MDA). Roedd hyn yn gyfle unigryw i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb seiliedig ar leoedd drwy ymchwil wedi'i dargedu, democrateiddio data, a dysgu yn y gymuned. Nod y bartneriaeth hon yw tarfu ar hierarchaethau gwybodaeth drwy roi pwyslais ar leisiau lleol yn y broses ymchwilio. Gyda'i gilydd, sefydlwyd gweithgorau i ganolbwyntio ar addysg, iechyd ac adeiladu cyfoeth cymunedol, gan gynnwys trigolion, staff yr MDA, rhanddeiliaid lleol a staff academaidd QCAP. Gan gyfarfod yn fisol, roedd y grwpiau hyn yn pennu cyfeiriad strategol y gwaith ac yn cynnwys trigolion mewn proses gyson o gyd-ddylunio. Yn erbyn y cefndir hwn y daeth syniadau ar gyfer ymyriad creadigol o amgylch trawma a defnyddio sylweddau i'r amlwg am y tro cyntaf.

Mae 'Growing up in the Market' yn astudiaeth hydredol ac ansoddol sy'n cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan archwilio heriau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, lles, addysg, cyflogaeth ac anfantais yn y Farchnad. Amlygodd canfyddiadau'r flwyddyn gyntaf angen brys i ganolbwyntio ar ddefnyddio sylweddau a datblygu ymyriadau i fynd i'r afael â'r mater hwn a'r hyn sy'n ei achosi yn y gymuned. Cododd y galw hwn, yn rhannol, o'r cynnydd yn nifer y marwolaethau o ganlyniad i hunanladdiad a gorddos yn y gymuned dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â'r gydnabyddiaeth bod problemau'n ymwneud â defnyddio sylweddau wedi codi'n aruthrol yn y Farchnad.

Aeth y grŵp gweithredu ar iechyd ati i gynnull proses cyd-ddylunio cymunedol mewn perthynas â defnyddio sylweddau, gan gynnwys trigolion oedd yn wynebu effaith defnyddio sylweddau, trawma a phroblemau iechyd meddwl. Roedd y broses yn cyfleu y dylai unrhyw ymyriadau gael eu gwreiddio yn y gymuned, gan ennyn diddordeb, a chael eu darparu drwy gyfryngau hygyrch i sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl.

Gall ymyriadau celfyddydol rymuso pobl, gan feithrin hyder a hunan-barch; gwella ymwybyddiaeth a newid agweddau tuag at ddefnyddio sylweddau. Mae ymyriadau creadigol yn cynnig cyfrwng lle gall pobl archwilio a mynegi eu meddyliau a'u hemosiynau. Mae'r rhain yn cynnig opsiwn 'llai bygythiol', lle gall pobl gael mynediad at drawma a'i fynegi a dechrau cywiro ei effeithiau. Fodd bynnag, er mwyn i ymyriadau celfyddydol fod yn effeithiol, rhaid iddynt ystyried anghenion eu poblogaeth darged, eu cyd-destun presennol, eu diwylliant a'u profiadau bywyd.



# CIP Gweithgareddau

Defnyddiodd ein hymchwil gyfranogol yn y gymuned, a oedd yn defnyddio dull seiliedig ar drawma i archwilio sut y gall y Celfyddydau ymateb yn effeithiol i atgofion ac ontoleg cymunedol, gan dorri’r cylchoedd cadw'n ddistaw i greu newid. Ei bwrpas oedd cyd-ddylunio ymyriad i fynd i’r afael â defnyddio sylweddau, a hwnnw’n seiliedig ar y celfyddydau ac yn cael ei arwain gan y gymuned, ac yn edrych ar ffactorau sy’n gallu cyfrannu, gan gynnwys trawma sy'n pontio’r cenedlaethau ac amddifadedd.

Roedd y broses gyd-ddylunio yn sicrhau bod yr ymyriad yn fyw i’r agweddau cyd-destunol a diwylliannol oedd yn angenrheidiol i sicrhau effeithiolrwydd. Drwy fynd i'r afael â'r rhyngweithio cymhleth rhwng defnyddio sylweddau, iechyd meddwl a thrawma sy'n pontio’r cenedlaethau drwy ymyrraeth seiliedig ar y celfyddydau, galluogodd y prosiect y gymuned i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Wrth wneud hynny, roedd yr ymchwil yn ceisio rhoi sylw i angen brys, ond roedd hefyd yn ceisio torri cylchoedd cenedlaethau'r dyfodol a chreu gwaddol o gelfyddyd a diwylliant i alluogi gwaith yn y dyfodol y tu hwnt i gyfnod dyfarniad y CIP.



**Nodau Prosiect CIP:**

***1. Adeiladu Partneriaethau***

Roedd y prosiect yn adeiladu ar bartneriaeth gref a sefydledig gyda rhanddeiliaid lleol a'r gymuned, gan ddod â phobl at ei gilydd gyda'r nod o greu ymyrraeth arloesol ym maes defnyddio sylweddau drwy gyd-greu. Sefydlwyd ein cymuned greadigol ar bartneriaeth deg, heb hierarchaethau gwybodaeth rhwng y gymuned, partneriaid na'r brifysgol. Roedd hynny’n golygu bod pawb dan sylw yn 'arbenigwyr'.  Roedd hyn yn wahanol i brosiectau ymchwil blaenorol gan fod y gymuned yn cael ei chynnwys yn y gwaith o gyd-greu a mireinio. Drwy wneud hyn, roedd modd sicrhau bod cyd-destun y prosiect yn briodol ac yn targedu angen cymunedol.

***2. Sefydlu Tîm***


Er mwyn hwyluso’r dasg o feithrin partneriaethau, cafodd y CIP ei sefydlu yn y Farchnad dros gyfnod o flwyddyn, wedi’i leoli ddau ddiwrnod yr wythnos yn y ganolfan gymunedol leol yn gweithio ochr yn ochr â thrigolion a phartneriaid. Roedd y CIP o’r gymuned ac yn dal i fyw yno, ac roedd y ddeinameg hon a oedd yn cael ei harwain gan brofiadau yn golygu bod elfen ymchwil y prosiect yn cael ei hystyried fel rhywbeth a oedd yn cael ei

wneud gan y gymuned ac nid iddi.  Drwy fod yn bresennol a chyfrannu'n frwd, llwyddodd tîm y CIP i feithrin ymddiriedaeth a pherthynas â'r gymuned, ac roedd hyn yn ei dro yn hybu deialog agored a gonest. Roedd gweithio'n agos fel hyn yn caniatáu gwell dealltwriaeth o ddeinameg, heriau a naws y gymuned.

### *3. Dechrau gyda'r Gymuned*

Yn aml iawn, caiff rhaglenni ymchwil a chelfyddydol eu datblygu gan sefydliadau fel prifysgolion, a'u cyflwyno i gymunedau fel pecyn y gallant gymryd rhan ynddynt. Mae hyn yn golygu nad oes gwir gysylltiad â chymunedau o'r cychwyn cyntaf; dydyn nhw ddim yn gwybod llawer am y prosiectau a does ganddyn nhw ddim diddordeb personol yn eu llwyddiant.

Aeth prosiect CIP o'i chwmpas hi mewn ffordd wahanol drwy weithio gyda'r gymuned o'r dechrau'n deg i lunio'r syniad ymchwil, dylunio'r prosiect a chael eu syniadau ar gyfer rhoi'r prosiect ar waith. Roedd ymgysylltu â'r gymuned o'r cychwyn yn help o ran recriwtio a chadw diddordeb oherwydd bod y trigolion yn gysylltiedig o'r cychwyn cyntaf. Llwyddodd ymchwil CIP i recriwtio 17 o gyfranogwyr, pob un ohonynt yn dal i gymryd rhan ac yn parhau i gydweithio â'r prosiect tan y diwedd.




*Cyfranogwyr yn creu darlun cyflawn o fywyd yn y Farchnad*

### *4. Dod o Hyd i Angor*

I ddechrau, roedd methodoleg yr ymchwil yn osgoi sôn yn uniongyrchol am bynciau fel cyffuriau, dibyniaeth neu drawma. Yn hytrach, rhoddwyd ffocws ar feithrin hunaniaeth ac ymddiriedaeth y grŵp drwy wahodd cyfranogwyr i drin a thrafod dau beth: byw yng nghymuned y Farchnad; a'r profiad o fod yn rhan o'r dosbarth gweithiol yn 2024. Roedd y ddwy thema hyn yn 'angori' ein gweithdai, ac yn gwneud i'r creadigrwydd lifo wedyn.  Arweiniodd y themâu hyn yn naturiol at drafodaethau am heriau cymunedol, gan gynnwys defnyddio sylweddau, trawma a cholled. Soniodd un cyfranogwr am natur esblygol y prosiect a'r amgylchedd diogel a chefnogol oedd yn hwyluso'r broses o rannu profiadau:

***'Doeddwn i ddim yn cael noson dda un noson … fe gawson ni sgwrs … agorais fy nghalon … a dyma rywun arall yn gwneud yr un peth, ac roeddech chi'n gallu gwneud hynny, gan deimlo'n saff, pawb gyda'i gilydd mewn grŵp. Eich lluniau o'ch poen a'ch galar … pan oeddech yn dangos iddynt eich bod yn gallu rhannu eich emosiynau … Roedd yn dda iawn, yn dda iawn iawn'*** Oedolyn fu'n cymryd rhan

### *5. Dulliau Cymysg*

Roedd elfen ffotograffig yr ymchwil yn defnyddio techneg o'r enw ffotolais, sef dull sy'n seiliedig ar ymchwil gweithredu cyfranogol a ddefnyddir yn aml mewn ymchwil sy'n ymwneud â'r celfyddydau. Gyda ffotolais, bydd pobl yn defnyddio ffotograffiaeth i dynnu lluniau o'u profiadau, eu cymunedau a'u bywyd bob dydd; cyn i'r delweddau wedyn gael eu trafod ymhellach. Mae ymchwil yn dangos bod ffotolais yn gweithio'n dda i bobl sy'n delio â phroblemau iechyd meddwl, defnyddio sylweddau, digartrefedd a hunanladdiad. Mae'n ffordd effeithiol o weithio gyda phlant a phobl ifanc yn eu harddegau hefyd.

Yn yr astudiaeth CIP, defnyddiwyd ffotolais i edrych ar hanes defnyddio sylweddau yn y Farchnad, er mwyn deall profiadau presennol cyfranogwyr a sbarduno trafodaethau ar draws cenedlaethau yn y gymuned:

> ***'I mi, roedd yn fwy pryd bynnag roedden ni'n tynnu'r lluniau...roedden ni'n gofyn pethau fel 'Beth mae hyn yn ei gynrychioli i chi?'...Roedd hynny'n agor fy meddwl i...pan oeddech chi'n dechrau clywed barn pobl eraill am eich lluniau chi hefyd, ac...eich barn chi am luniau pobl eraill'*** Oedolyn fu'n cymryd rhan



*Cyfranogwyr CIP yn trafod eu lluniau gyda'i gilydd*

Defnyddiodd y cyfranogwyr ffonau symudol fel camerâu i gofnodi eu profiadau drwy gydol y prosiect. Nid yr elfen dechnegol oedd yn bwysig: roedd y pwyslais ar ddefnyddio ffotograffiaeth a dulliau creadigol eraill i archwilio perthynas cyfranogwyr gyda'u cymuned a rhannu eu straeon. I hwyluso hyn, defnyddiodd y CIP a'r hwyluswyr

amrywiaeth eang o ddulliau creadigol yn ystod y sesiynau wythnosol i feithrin cydlyniad grŵp a chreu awyrgylch oedd yn annog pawb i fod yn agored.

Roedd rhai dulliau'n fwy effeithiol nag eraill yn ymarferol. I rai, roedd ffotograffiaeth yn taro tant go iawn, ac i eraill, ysgrifennu creadigol neu ddrama oedd y ffordd fwyaf addas o rannu eu straeon. Felly daeth yn hanfodol gwneud yn siŵr bod y prosiect yn hyblyg ac yn cynnig amrywiaeth o ddulliau celfyddydol i ddiwallu anghenion y grŵp a chadw eu diddordeb.

> ***‘Roedden ni’n defnyddio gwahanol ymarferion artistig, gan gynnwys gwneud mapiau, rhywfaint o ddrama, rhywfaint o ysgrifennu – a rhywfaint o ffotograffiaeth yn amlwg. Wrth wraidd y cyfan roedd trawma, a defnyddio sylweddau...y rheswm dros ddefnyddio’r technegau gwahanol hyn oedd mynd ati go iawn i ennyn diddordeb pobl. Roedd ambell un yn teimlo’n fwy cyfforddus yn ysgrifennu rhywbeth...(neu) yn tynnu lluniau’*** Matt Faris, Hwylusydd Celfyddydol

**Sesiynau Gweithdy:**
Roedd pob un o’r grwpiau (oedolion/pobl ifanc) yn cyfarfod yn y ganolfan gymunedol leol bob wythnos gyda’r CIP a’r artist ar gyfer gweithdy dwy awr gyda’r nos. Cynhaliwyd y gweithdai rhwng 6-8pm a darparwyd swper ym mhob sesiwn. Roedd amser bwyd yn allweddol, yn rhoi cyfle i gryfhau'r bond rhwng yr aelodau a’r berthynas rhyngddynt.

Cynhaliwyd y sesiynau gweithdy dros bum mis (Hydref 2023-Mawrth 2024), gyda gwyliau ar gyfer y Nadolig. Cawsant eu cyd-ddylunio gan y CIP, yr artist a’r partneriaid ymlaen llaw a’u nod oedd ennyn diddordeb y cyfranogwyr drwy ddefnyddio dull creadigol newydd bob tro. Cawsant eu cyflwyno yn ystod y gaeaf a dechrau’r gwanwyn ac o ganlyniad, cynhaliwyd cryn dipyn o’r ymarferion tynnu lluniau yn yr awyr agored pan oedd hi’n dywyll. Anogwyd y cyfranogwyr i fynd allan yn eu cymuned yn ystod y dydd i dynnu lluniau i ategu hyn, gan gofio y gall yr un lle deimlo'n wahanol ar wahanol adeg o’r dydd.

Roedd tri cham i strwythur y gweithdai:

- ***Cam Un:*** Paratoi’r sylfaen – Y cyfranogwyr yn archwilio bywyd yn eu cymuned a ffurfio hunaniaeth grŵp, a chael eu cyflwyno i ffotograffiaeth
- ***Cam Dau:*** Nodi themâu bywyd yn y gymuned a thynnu lluniau ffotograff a oedd yn cyfleu’r themâu hyn orau
- ***Cam Tri:*** Cyd-guradu ac arddangos stori’r gymuned drwy arddangosfa ffotograffiaeth ac ysgrifennu creadigol.

Roedd y lluniau a dynnwyd gan gyfranogwyr yn adlewyrchu straeon personol a phrofiadau bywyd, ond roeddent hefyd yn gyfrwng i alluogi pobl i rannu straeon â’i gilydd a myfyrio ar faterion anodd:

***'Roeddwn i'n teimlo bod hyd yn oed siarad am rai o'r trafferthion a'r cosbi a phethau felly, pethau roeddwn i'n meddwl na fyddwn i byth yn gallu siarad amdanyn nhw ... yn help mawr i mi. Siaradais am y peth, ac roedd pawb ... yn cydymdeimlo. Mae gan bawb eu cefndiroedd eu hunain ond roeddent yn gallu bod yn agored a ... siarad am bethau go ddwfn'*** Cyfranogwr yn y grŵp oedolion



*Y cyfranogwyr yn grwpio'r lluniau o amgylch thema 'cymuned'*

**Arddangosfa Ffotograffau:**

Chwaraeodd y cyfranogwyr ran flaenllaw yn y gwaith o gyd-gynhyrchu a chyd-guradu'r arddangosfa ffotograffau, "The Market: A People's Tapestry," a oedd yn rhannu eu lluniau a'u straeon. Drwy ddeialog a chonsensws, nododd y grwpiau oedolion a phobl ifanc chwe thema allweddol oedd yn cyfleu bywyd yn y Farchnad: balchder, heriau, cartref, colled, gwytnwch a chymuned.

Cyflwynodd y cyfranogwyr ffotograffau a oedd yn cynrychioli pob thema, gan ddewis tri i'w harddangos yn yr arddangosfa. Y rhain oedd asgwrn cefn yr arddangosfa.




*Arddangosfa The Tapestry*

Cyfarfu'r cyfranogwyr yn rheolaidd yn eu dau grŵp i edrych ar ffotograffau a dod â dros 100 o luniau i lawr i 51, gan sicrhau bod pob cyfranogwr a phob thema yn cael eu cynrychioli.  Bu'r CIP a'r artist yn gweithio gyda'r grŵp i nodi naratif a oedd yn clymu'r ffotograffau at ei gilydd ac yn cryfhau llais y

gymuned gyfan.  Y naratif hwn oedd 'Rhannu straeon, torri cylchoedd, meithrin cysylltiadau.'

Cafodd y teitl, 'The Market: A People's Tapestry', ei gynnig gan grŵp y bobl ifanc, ac roedd yr oedolion yn cytuno. Roedd pawb yn teimlo ei fod yn symbol o'r gwahanol straeon a phrofiadau sy'n dod at ei gilydd i greu cymuned y Farchnad a'i hunaniaeth. Bu'r grwpiau'n gweithio gyda Matt, Áine a phartner y rhaglen, Redhead Exhibitions, i gytuno ar frandio, gosodiad a chynllun yr arddangosfa.  Roedd y broses o gyd-greu hefyd yn golygu bod cyfranogwyr yn dewis lleoliad ar gyfer yr arddangosfa, yn helpu i reoli'r digwyddiad lansio, yn rhannu tystlythyrau personol o'r prosiect CIP yn ystod y lansiad; ac yn cynnwys cymuned ehangach y Farchnad yn y prosiect drwy eu gwahodd i ychwanegu eu straeon teuluol at arddangosfa Tapestry.

> ***'Os bydd rhywun yn gweld rhywun arall yn ddigon hyderus i... dynnu lluniau a siarad am eu problemau... (maen nhw'n gallu gweld) 'Dwi'n gallu gwneud hynna hefyd'...Dwi'n meddwl bod yr arddangosfa gelf yn ysbrydoliaeth fawr i gymunedau eraill hefyd***
>
> Un o'r bobl ifanc fu'n cymryd rhan




*Yr Arddangosfa Tapestri yn cael ei harddangos*

# Canlyniad a Newid

Mae'r prosiect wedi dechrau torri cylchoedd cadw'n ddistaw, rhywbeth sy'n trosglwyddo trawma o un genhedlaeth i'r llall. Drwy ddulliau celfyddydol, roedd y cyfranogwyr yn gallu rhoi llais i agweddau ar stigma neu gywilydd oedd yn ymwneud â defnyddio sylweddau a thrawma – pethau roedden nhw wedi'u cadw'n ddistaw neu wedi eu cuddio yn y gorffennol:

> ***'Fe wnes i ddechrau siarad am gymaint o bethau, pethau nad oeddwn i erioed wedi meddwl y byddwn i'n siarad amdanyn nhw... rydw i wedi gallu siarad mwy am bethau a gallu mynegi fy nheimladau'n well'*** *Un o'r bobl ifanc fu'n cymryd rhan*

Roedd angen defnyddio dull o gyd-greu a oedd seiliedig ar le ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi'i ategu gan dystiolaeth ymchwil a phrofiad bywyd, i sicrhau'r gofod a'r diogelwch angenrheidiol i gyfranogwyr y rhaglen allu siarad yn fwy agored am heriau camddefnyddio sylweddau a thrawma sy'n pontio'r cenedlaethau. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi natur gefnogol y grŵp, a'r dulliau a ddefnyddiwyd, a'u hanogodd i rannu sylwadau fel hyn:




*Grŵp CIP yr Oedolion yn trafod problemau cymunedol drwy ddefnyddio ysgrifennu creadigol*

> ***'Mae wedi dod â phawb at ei gilydd. Mae pobl wedi rhannu profiadau maen nhw wedi'u cael am gyffuriau a thrawma am y tro cyntaf, ac roedd yn teimlo fel bod y pwysau yn codi oddi ar eu hysgwyddau'*** Oedolyn fu'n cymryd rhan

***‘Drwy gael y profiad grŵp hwnnw a sgwrsio gyda’ch gilydd, ‘da chi’n sylweddoli nid yn unig bod cydymdeimlad ac empathi, ond bod cydnabyddiaeth o broblemau, heb ddim beirniadaeth’*** Oedolyn fu'n cymryd rhan

Roedd y dulliau celfyddydol a diwylliannol yn cynnig cyfleoedd gwahanol i bobl fynegi eu pryderon, eu hofnau a’u trawma. Ond roedd hefyd yn eu galluogi i fyfyrio ar eu cryfderau, eu gwytnwch a’u cefnogaeth. Mae prosiect CIP wedi cael effaith anhygoel, gan roi cyfle i rannu straeon a meithrin cysylltiadau, a grymuso cyfranogwyr yn y gymuned a sbarduno partneriaethau traws-sector.

***‘Fe wnaethon ni drafod profiadau dwfn a phersonol am bethau sy’n digwydd yn y Farchnad gyda chamddefnyddio sylweddau, trawma, trawma rhwng cenedlaethau... sut mae pethau sydd wedi digwydd i’n rhieni, i’n neiniau a’n teidiau, a’n bod ni’n dal i ddelio â’r canlyniadau heddiw...’Da ni wedi gallu dod allan yr ochr arall a chynhyrchu rhywbeth anhygoel’*** Un o'r bobl ifanc fu'n cymryd rhan




*Enghreifftiau o ysgrifennu creadigol y cyfranogwyr*

Fe wnaeth cymryd rhan mewn ymchwil a oedd yn seiliedig ar y celfyddydau ac wedi’i chreu ar y cyd effeithio’n fawr arnaf i fel CIP. Mae wedi fy ngalluogi i archwilio a mynegi profiadau ac emosiynau dynol cymhleth nad ydy dulliau ymchwil traddodiadol yn gallu eu canfod bob tro. Roedd yr amser a dreuliais yn rhan o’r gymuned i bob pwrpas yn golygu fy mod i'n osgoi llawer o’r gwaith meithrin perthynas oedd ei angen rhwng y cyfranogwr a’r ymchwilydd wrth ddelio â phynciau mor sensitif. Roedd yr amrywiaeth o ddulliau artistig a ddefnyddiwyd yn galluogi cysylltiadau dyfnach â chyfranogwyr ac yn datgelu data cyfoethog, aml-haenog ar

ddefnyddio sylweddau a thrawma, gan wella dilysrwydd y gwaith ymchwil a rhoi mwy o ddyfnder iddo.

Fe wnaeth arwain prosiect a oedd yn cynnwys nifer o bartneriaid fy ngwthio i feddwl yn feirniadol ac yn arloesol, gan herio ffiniau patrymau ymchwil confensiynol. Fe wnaeth fy annog i a thîm QCAP i groesawu amwysedd ac ansicrwydd, a throi at ddull ymchwil mwy hyblyg a meddwl agored.

Roedd rheoli partneriaeth traws-sector yn hanfodol drwy gydol y prosiect, gan olygu bod y CIP yn manteisio ar arbenigedd ac adnoddau gan bartneriaid. Cyfrannodd yr MDA gyllid ychwanegol ac amser staff, tra bod partneriaid eraill wedi cynorthwyo gyda meysydd fel recriwtio, hwyluso, dylunio'r arddangosfa a hyrwyddo. Un o ganlyniadau annisgwyl y prosiect oedd bod sefydliadau partner yn dweud bod y lefelau ymgysylltu wedi cynyddu:

***'Mae gennym ni bobl a fyddai, yn draddodiadol, wedi teimlo nad oedden nhw'n rhan o'r gymuned, pobl nad oedden nhw erioed wedi cymryd rhan ym mywyd y gymuned. Nawr, oherwydd eu bod yn cymryd rhan yn y prosiect CIP, maen nhw'n dod i mewn i'r ganolfan gymunedol yn amlach, maen nhw'n cymryd rhan yn ein gwasanaethau ac yn gwirfoddoli i fod yn ymgyrchwyr cymunedol'*** Siobhan McDonnell, MDA

Datblygodd yr hyn a gychwynnodd fel prosiect ffotograffiaeth tri mis yn brosiect chwe mis. Roedd hyn yn gofyn am hyblygrwydd, rheoli disgwyliadau, dod o hyd i gyllid a symud amserlenni. Roedd y newid hwn mewn meddylfryd yn gwella gallu'r tîm ymchwil i gasglu a chyfleu canfyddiadau'n effeithiol a chreu ymchwil mwy cyfannol a pherthnasol.

Mae partneriaid y rhaglen wedi croesawu'r dulliau celfyddydol a chyd-greu, gan gydnabod effaith y rhain wrth ddatgloi elfennau y mae dulliau ymchwil traddodiadol wedi cael trafferth eu dadansoddi a'u deall.

***'Mae'r arddangosfa hon yn benllanw misoedd o waith caled gan drigolion i gofnodi eu lle yn y ddinas. Mae'n dangos pŵer trawsnewidiol y celfyddydau i fynd i'r afael â materion fel iselder, dibyniaeth a defnyddio sylweddau, a hynny mewn ffordd sy'n adeiladol ac yn greadigol fel y'i gilydd'***
Fionntán Hargey, Director, MDA



Creative Communities · UKRI Arts and Humanities Research Council · Northumbria University NEWCASTLE



*Cyfranogwyr CIP yn nigwyddiad lansio Arddangosfa Tapestry yn 2 Royal Avenue*





*Aelod o'r cyhoedd yn lansiad Arddangosfa Tapestry*

Mae prosiect CIP wedi creu awydd am waith celfyddydol a diwylliannol parhaus, gan gydnabod pŵer cyd-greu o fewn fframwaith gwyddonol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cefnogi creadigrwydd yn hytrach na'i fygu. Mae'r prosiect wedi dangos bod gwaith rhaglennol cryf hefyd yn gallu siapio a dylanwadu ar ymchwil a datblygu arloesol a theg mewn cyd-destunau datganoledig.

Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil yn amlygu pŵer trawsnewidiol adrodd straeon personol a mynegiant creadigol wrth feithrin empathi a dealltwriaeth a hybu lles. Roedd y canfyddiadau'n tanlinellu pwysigrwydd cysylltiadau cymunedol a pherthnasoedd personol wrth fynd i'r afael â heriau dibyniaeth, trawma ac iechyd meddwl. Roedd y consensws yn glir: mae dull gweithredu sy'n rhoi pwyslais ar gyd-greu ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan flaenoriaethu lleisiau a arferai fod yn dawel a harneisio pŵer y celfyddydau, diwylliant ac adrodd straeon, yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo lles a hunaniaeth yn y Farchnad a thu hwnt.

> ***'Dydw i ddim eisiau i hyn ddod i ben pan ddaw'r grŵp ffocws i ben, 'dwi eisiau iddo fo barhau, a bod yma bob dydd Mercher yn siarad am hyn i gyd'***
> Cyfranogwr – grŵp y bobl ifanc

Un o ganlyniadau allweddol prosiect CIP yw bod cyfranogwyr bellach yn gweithio gyda phartneriaid y rhaglen i ddod o hyd i gyfleoedd i hybu lleisiau cymunedau drwy gyd-greu celfyddydol a diwylliannol ar draws sectorau.




*Gofynnwyd i drigolion y farchnad a fynychodd y digwyddiad lansio Tapestri i wneud hynny ychwanegu eu henwau teuluol at y poster*

O ganlyniad uniongyrchol i fuddsoddiad CIP AHRC, mae £34,500 o gyllid ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn wedi'i sicrhau ar gyfer gwaith yn y dyfodol gan Gronfa'r Loteri (Awards for all); AHRC IAA ym Mhrifysgol y Frenhines Belfast (Leading Impact Fund) a chronfa fewnol Prifysgol y Frenhines Belfast (Early Intervention). Bydd y gwaith yn cynnwys gweithdai adrodd straeon ac ysgrifennu caneuon, drama wedi'i chyd-greu ar heriau cymunedol, a rhaglen ddogfen yn dilyn datblygiad y ddrama. Bydd yr arddangosfa yn gweithredu fel 'sbardun' data ar gyfer y rhain. Bydd y rhaglen ddogfen yn dilyn datblygiad y ddrama gan sicrhau gwaddol traws-sector cymunedol ar gyfer problemau iechyd y cyhoedd – trawma a defnyddio sylweddau.

**IAA Prifysgol y Frenhines Belfast**
Cynhaliwyd prosiect CIP yn IAA AHRC Prifysgol y Frenhines Belfast ac mae'n adlewyrchu nodau craidd yr IAA o gyd-gynhyrchu mewn ymchwil ac effaith. Cafwyd tystiolaeth o hyn drwy weithdai ac arddangosfa CIP, a chyrhaeddiad rhyngwladol y prosiect a welwyd yn niddordeb y cyfryngau, amrywiaeth y rhai a ddaeth i lansiad yr arddangosfa, a'r diddordeb cymunedol mewn bod yn rhan o'r ddrama a'r rhaglen ddogfen ddilynol.

Mae datblygu'r pecyn cymorth a'r adnodd seiliedig ar y celfyddydau sy'n deillio o ymchwil CIP yn cyfleu ymrwymiad yr IAA ynghylch cyfnewid gwybodaeth a chynyddu'r cyfle i gael effaith. Mae amcanion IAA o safbwynt partneriaeth a lle wedi'i wneud yn gartref delfrydol i brosiect CIP. Mae'r prosiect hwn wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i IAA AHRC Prifysgol y Frenhines Belfast, gan gynnwys datblygu partneriaethau allanol parhaus, cydweithio i fynd i'r afael â heriau sy'n seiliedig ar leoedd a sicrhau mecanweithiau cyfnewid gwybodaeth priodol i gynyddu effaith y prosiect.

Gwelodd cynrychiolwyr IAA AHRC ym Mhrifysgol y Frenhines Belfast gyfle i rannu'r hyn a ddysgwyd o brosiect CIP drwy ddatblygu 'Dosbarth Meistr mewn dulliau celfyddydol' ar gyfer cynulleidfa academaidd, a fyddai'n cael ei gynnwys yng nghynnig hyfforddiant Academi Effaith ac Ymgysylltu'r IAA. Mae ein cydweithwyr yr IAA hefyd wedi helpu gyda chyflwyniadau ym maes polisi, gan gysylltu ein tîm â phartneriaid allanol IAA i helpu yn hyn o beth.



# Argymhellion

**Profiad y gymuned** Mae hyn yn hollbwysig wrth fynd i'r afael â heriau parhaus a chymhleth sy'n seiliedig ar leoedd. Mae'n bwysig sicrhau bod dulliau celfyddydol yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil a phrofiad go iawn o le

**Ymchwil hyperleol** Gall ymchwil hyperleol gael cyseinedd ac effaith ehangach. Mae'r materion sy'n cael eu harchwilio yng nghymuned y Farchnad yn berthnasol i gymunedau eraill yng Ngogledd Iwerddon, felly mae cynlluniau lledaenu effeithiol yn allweddol. Er enghraifft: roedd y man arddangos a ddewiswyd yn allweddol, gyda 2 Royal Avenue yn lleoliad creadigol cydnabyddedig ym Melfast. Cafodd yr arddangosfa ei chynnal yma ym mis Ebrill

**Adnoddau Parhaus** Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i ddiwylliant chwarae rhan yn y gwaith o helpu i fynd i'r afael â heriau cymunedol cymhleth a pharhaus. Mae angen darparu adnoddau priodol ar gyfer prosiectau diwylliannol yn y tymor hwy er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl ac yn cael cymaint o effaith ag y bo modd.

**Prosesau dilynol** Dylid archwilio hyn yn fwy trylwyr. Yn y gymuned greadigol hon, mae momentwm o amgylch y rhaglen waith hon, a'r uchelgais i ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i barhau i hwyluso sgyrsiau anodd a hybu newid. Dylid archwilio neu gyfeirio at fecanweithiau galluogi ar gyfer hyn.

**Cyd-greu ar draws sectorau gyda chymunedau** Gall hyn fod yn fwy pwerus nag ymchwil unigol. Mae angen cydnabod gwerth unigryw a phwerus ymatebion cymunedol sy'n seiliedig ar le i heriau cymunedol cymhleth, parhaus sy'n gorgyffwrdd. Yn aml, mae ymyriadau ym maes defnyddio sylweddau a thrawma sy'n pontio'r cenedlaethau yn therapiwtig ac yn targedu unigolion. Mae prosiect CIP wedi tynnu sylw at fanteision dulliau cyd-greu ac ymchwil a datblygu diwylliannol newydd i greu ymddiriedaeth, meithrin partneriaethau a rhannu gwybodaeth ar draws sectorau a fydd yn aros y tu hwnt i oes prosiect CIP, gan alluogi cydweithio yn y dyfodol.



# Casgliad

Roedd prosiect ymchwil CIP yn hwyluso newid mewn cyfnod byr drwy bartneriaethau teg ar draws sectorau. Roedd yr iaith, oherwydd y dulliau a ddefnyddiwyd, yn ennyn ymddiriedaeth rhwng cyfranogwyr a phartneriaid; gan alluogi cyfranogwyr i rannu straeon, meithrin cysylltiadau a thorri cylchoedd cadw'n ddistaw rhwng cenedlaethau.

Roedd cyd-ddylunio'n ganolog i'r prosiect, gan rymuso cymuned y Farchnad ac agor sgyrsiau oedd yn effeithio ar newid yn lleol. Roedd y cyfuniad cytbwys o arbenigedd academaidd a phrofiad bywyd yn allweddol wrth rymuso cyfranogwyr.

Roedd y model cyllido datganoledig yn ganolog i lwyddiant y prosiect. Roedd wrth galon gweithio seiliedig ar leoedd, gan ganiatáu i'r gwaith ymchwil a datblygu gael ei wneud yn y gymuned. Roedd dyluniad y prosiect yn gweithredu fel fframwaith a oedd yn caniatáu i gyfranogwyr ffynnu, yn hytrach na llu o brosesau oedd wedi'u nodi ymlaen llaw, fel sy'n digwydd gyda phrosiectau ymchwil cymunedol yn aml.

Mae partneriaethau amrywiol yn hanfodol er mwyn cael prosiectau hyblyg ac ymatebol. Yn y prosiect hwn, mae'r partneriaethau hyn wedi braenaru'r ffordd ar gyfer prosiectau sydd ar y gweill sy'n defnyddio'r celfyddydau a diwylliant ym maes ymchwil a datblygu. Mae angen ystyried gwaddol y prosiect y tu hwnt i oes y dyfarniad. Yn y prosiect hwn, sicrhawyd cyllid ychwanegol ar gyfer arloesi ac ymchwil yn y dyfodol i barhau â'r mentrau celfyddydol a diwylliannol yng nghymuned y Farchnad.

Roedd yr arddangosfa'n tynnu sylw at gryfder a gwytnwch cymunedol, gan newid argraffiadau o gymuned y Farchnad a meithrin balchder ymysg trigolion.

Mae llwyddiant y prosiect yn tanlinellu'r angen am dystiolaeth gymunedol wrth lunio polisïau. Rydym yn gweithio gyda'r Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon i fwrw ymlaen â'r sgwrs hon ynghylch tystiolaeth deg wrth wneud penderfyniadau mewn cyd-destunau datganoledig.

**Gwybodaeth Bellach:**

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch I www.creativecommunities.uk

**Cysylltwch â'r CIP:**

Áine Brady, Prifysgol y Frenhines Belfast | aine.brady@qub.ac.uk

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.

Creative Communities | UKRI Arts and Humanities Research Council | Northumbria University NEWCASTLE